



Polisi Gwisg Ysgol

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CHP) wrth wraidd cynllunio, polisiâu, ymarfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, rydym nid yn unig yn dysgu am hawliau plant ond hefyd hawliau enghreifftiol a pharch ym mhob perthynas – Cysylltiedig ag Erthygl 12 (CRC)

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Deddf Diwygio Addysg 1988
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Addysg 2011

Mae'r dogfennau canlynol hefyd yn gysylltiedig â'r polisi hwn:

- Gwisg Ysgol mewn Ysgolion Amlhiliol (NFER)
- Canllawiau Gwisg Ysgol (DfE)

Polisi Gwisg Ysgol, Ysgol Gymraeg Pontybrenin

Mae gwisg ysgol i ddisgyblion yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ymddygiad a disgyblaeth gadarnhaol, datblygu ethos yr ysgol a chefnogi addysgu a dysgu.

Rydym yn cydnabod bod gennym rwymedigaeth o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i ddiogelu a darparu ar gyfer hawliau unigolion i arddangos eu gwisg grefyddol neu ddiwylliannol. Bydd unrhyw gais yn seiliedig ar sail gymdeithasol neu ddiwylliannol i ddisgyblion wisgo dillad eraill, ac eithrio neu yn ychwanegol at y wisg ysgol benodol, yn cael ei ystyried.

Credwn fod gennym ddyletswydd foesol i gadw costau'n isel i rieni gan ein bod yn sylweddoli nad oes ganddynt bot diddiwedd o arian parod ar gyfer dillad ysgol newydd. Felly, byddwn yn sicrhau bod ein gwisg ysgol yn fforddiadwy, yn darparu'r gwerth gorau ac y bydd yn dod o ffynonellau cynaliadwy.

Byddwn yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr, disgyblion, personél ysgol, grwpiau cymunedol, arweinwyr crefyddol lleol a'r Awdurdod Lleol er mwyn mesur eu barn ynghylch unrhyw newidiadau i'r wisg ysgol bresennol. Bydd rhieni a disgyblion yn cael gwybod ymhell cyn i unrhyw newidiadau i'r polisi hwn ddod i rym.

Rydym am weithio'n agos gyda'r Cyngor Ysgol a chlywed eu barn wrth i ni gydnabod a chefnogi Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y dylid annog plant i ffurfio a mynegi eu barn.

Credwn ei bod yn hanfodol bod y polisi hwn yn nodi'n glir ac yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau a'r trefniadau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn.

Nodau

- Sicrhau bod disgyblion yn gwisgo gwisg ysgol er mwyn cefnogi ymddygiad a disgyblaeth gadarnhaol, datblygu ethos yr ysgol a chefnogi addysgu a dysgu effeithiol.
- Gweithio gydag ysgolion eraill a'r awdurdod lleol i rannu arfer da er mwyn gwella'r polisi hwn.

Cyfrifoldeb am y polisi a'r weithdrefn

Rôl y Corff Llywodraethol

Mae'r Corff Llywodraethol:

- wedi dirprwyo i'r Pennaeth y cyfrifoldeb o weithredu a chynnal y polisi hwn;
- wedi dirprwyo pwerau a chyfrifoldebau i'r Pennaeth i sicrhau bod holl bersonél yr ysgol ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cydymffurfio â hi;
- â chyfrifoldeb dros sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth cydraddoldeb;
- â chyfrifoldeb am sicrhau bod cyllid ar waith i gefnogi'r polisi hwn;
- â chyfrifoldeb dros sicrhau bod y polisi hwn a'r holl bolisiâu yn cael eu cynnal a'u diweddarau'n rheolaidd;
- â chyfrifoldeb am sicrhau bod yr holl bolisiâu ar gael i rieni;
- â chyfrifoldeb am sicrhau bod amserlen o ymweliadau rheolaidd gan lywodraethwyr yn cael ei ddilyn, i gysylltu â'r Pennaeth ac i adrodd yn ôl i'r Corff Llywodraethol;
- â chyfrifoldeb am weithredu, monitro a gwerthuso'r polisi hwn yn effeithiol.

Rôl y Pennaeth

Bydd y Pennaeth yn:

- dirprwyo cyfrifoldeb ar ei gymeradwyaeth i'r Uwch Dîm Rheoli;
- sicrhau bod pob personél ysgol, disgybl a rhiant yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cydymffurfio â hi;
- gofyn i'r holl staff roi gwybod i unrhyw ddisgybl nad yw'n cydymffurfio â'r polisi hwn;
- ysgrifennu at rieni disgyblion sy'n camddefnyddio'r polisi hwn yn gofyn am eu cefnogaeth;
- prosesu unrhyw gwynion a dderbynnir yn y ffordd briodol fel y nodir ym mholisi cwynion yr ysgol;
- adrodd i'r Corff Llywodraethol nifer y disgyblion sy'n cam-drin y polisi hwn yn rheolaidd;
- gwneud defnydd effeithiol o ymchwil a gwybodaeth berthnasol i wella'r polisi hwn;

- gweithio'n agos gyda'r llywodraethwr cyswllt a'r cydlynnydd;
- darparu arweinyddiaeth a gweledigaeth mewn perthynas â chydraddoldeb;
- darparu arweiniad, cefnogaeth a hyfforddiant i'r holl staff;
- monitro effeithiolrwydd y polisi hwn;
- adrodd i'r Corff Llywodraethol ar lwyddiant a datblygiad y polisi hwn.

Rôl staff yr ysgol

Bydd staff yr ysgol yn:

- cydymffurfio â phob agwedd o'r polisi hwn;
- arwain drwy esiampl a gwisgo'n briodol;
- daclus eu golwg ac yn annog disgyblion i gadw at y polisi hwn;
- gweithredu polisi a chynlluniau cydraddoldeb yr ysgol;
- adrodd a delio â phob achos o wahaniaethu;
- adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt ar unrhyw agwedd o gymuned yr ysgol;

Rôl y disgyblion

Bydd y disgyblion yn:

- ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cydymffurfio â hi drwy wisgo'r wisg gywir;
- dangos cwrteisi, ymddwyn yn dda bob amser ac yn ystyried pobl eraill;
- ufuddhau i bob rheoliad iechyd a diogelwch ym mhob rhan o'r ysgol;
- cysylltu â'r cyngor ysgol ynghylch unrhyw welliannau i'r polisi hwn;
- cymryd rhan mewn holiaduron ac arolygon.

Rôl rhieni/gofalwyr

Bydd rhieni/gofalwyr yn:

- ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cydymffurfio â hi drwy sicrhau bod eu plant yn gwisgo gwisg ysgol bob amser;
- cymryd rhan mewn holiaduron a gynhelir gan yr ysgol;

Gwisg Ysgol

Gwisg	Siwmpwr werdd gyda bathodyn yr ysgol Crys-polo melyn gyda bathodyn yr ysgol Trowsus / siorts / sgert / brat llwyd Froc 'gingham' werdd (dewisol yn yr haf)
Esgidiau	Esgidiau / Treiners du

Gemwaith	Clustdlysau 'stud' yn unig
Cit ymarfer corff	Gwisg ymarfer corff addas o ddewis y disgybl Treiners (caeedig)

Cwynion

Mae gennym weithdrefnau clir ar waith i ddelio ag unrhyw gŵyn a wneir yn erbyn yr ysgol neu unigolion sy'n gysylltiedig â hi. Rydym yn cymryd unrhyw gŵyn o ddifrif ac rydym yn delio â nhw yn broffesiynol gan ddilyn gweithdrefnau penodol. (Gweler Polisi cwynion)

Codi ymwybyddiaeth o'r polisi hwn

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r polisi hwn drwy:

- brosbectws yr ysgol
- wefan yr ysgol
- gyfarfodydd gyda rhieni fel cyfarfodydd cychwynol, cyfarfodydd pontio a nosweithiau rieni
- ddigwyddiadau ysgol
- gyfarfodydd gyda staff yr ysgol
- adroddiadau fel yr Adroddiad Blynyddol i Rieni ac Adroddiadau y Pennaeth i'r Corff Llywodraethol

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ddyletswydd arnom i beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail eu hoedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhywedd, beichiogrwydd, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.

Aseswyd effaith cydraddoldeb ar y polisi hwn a chredwn ei fod yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 gan ei fod yn deg, nid yw'n blaenoriaethu nac yn rhoi anfantais i unrhyw ddisgybl ac mae'n helpu i hyrwyddo cydraddoldeb yn yr ysgol hon.

Mabwysiadu'r Polisi

Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol: 27/6/23

Dyddiad Ardystiwyd gan y Corff Llywodraethol: 27/6/23

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: